# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN

**DYDD** Llun, 18 Ebrill 2016

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** M. Gravell (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 30 MAWRTH 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 30 Mawrth 2016 gan ei fod yn gofnod cywir.**

**3. MEINI PRAWF DIWYGIEDIG AR GYFER Y GRANT CANLYNOL: GRANT CRONFA'R DEGWM**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar y meini prawf diwygiedig a gynigiwyd ar gyfer Cronfa'r Degwm. Nodwyd bod y Meini Prawf ar gyfer Grantiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y gronfa yn cael ei gweinyddu'n effeithiol a bod unrhyw newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol yn cael eu cynnwys.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r meini prawf diwygiedig ar gyfer Cronfa'r Degwm.**

**4. DYFARNU CYLLID AD-DALADWY I GEFNOGI ADFYWIO CANOL TREF LLANELLI**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a roddai sylw i lwyddiant Is-adran Datblygu Economaidd Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) wrth sicrhau cyllid ychwanegol o £50,000 tuag at y cynllun benthyciadau o £700,000 a gymeradwywyd ar gyfer canol tref Llanelli, er mwyn lleihau nifer y safleoedd ac adeiladau gwag, segur a rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol, tra'n cefnogi arallgyfeirio yng nghanol tref Llanelli.
Roedd Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu'r cyllid ar yr amod ei fod yn cael ei hawlio'n llawn erbyn 25 Mawrth 2016, neu fel arall byddai wedi cael ei golli. Felly, argymhellwyd cymeradwyo'n ôl-weithredol fod y £50,000 ychwanegol yn cael ei dynnu i lawr a bod y cyllid hwn yn cael ei ychwanegu at y swm gwreiddiol i'w ddefnyddio at y diben a ddisgrifiwyd yn y llythyr cynnig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhelliad uchod.**

____________________ ____________________

**CHAIR** **DATE**